

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# St Cadocs Flying Start

Meithrin ymdeimlad o berthyn drwy gynhwysiant

## Cefndir

Ym meithrinfa gofal dydd St Cadoc, caiff amrywiaeth nid yn unig ei gydnabod, ond ei ddathlu hefyd. Mae plant a theuluoedd yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd gan gynnwys Persiaidd, Arabaidd, Du Affricanaidd, Eidalaidd, Portiwgalaidd, Gwyddelig, Pwylaidd a mwy. Mae'r tîm yn ymrwymedig i greu man lle mae pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei weld, ei werthfawrogi, a'i fod yn gysylltiedig.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Mae St Cadoc yn ymgysylltu â rhieni'r plant wrth gynllunio gan ofyn sut mae'r teuluoedd yn dathlu eu gwyliau. Mae hyn yn eu helpu i wneud y canlynol:

- ymgorffori gwyliau amlddiwylliannol i'r cwricwlwm, o Eid a Diwrnod San Padrig i'r Flwyddyn Newydd Bersiaidd a Dydd Gŵyl Dewi
- addasu gweithgareddau fel y gall pob plentyn gymryd rhan, fel creu gwaith celf tân ar gyfer y Flwyddyn Newydd Bersiaidd
- defnyddio crefft, gwisgo i fyny, cerddoriaeth a bwyd i ddod â dathliadau'n fyw
- nodi achlysuron arbennig fel Sul y Mamau a'r Pasg gyda gweithgareddau crefft, coginio a synhwyraidd yn seiliedig themâu

Cafodd y cynhwysiant hwn ei sbarduno gan hyfforddiant "Dyma Fi 2s" sydd wedi rhoi hyder i'r staff gael sgyrsiau agored am ddiwylliant gyda theuluoedd y plant a'r ffordd orau o ymgorffori hyn i'w cynlluniau bob dydd.

## Effaith ...

- Mae'r plant yn cael ymdeimlad cryfach o berthyn a hunaniaeth
- Mae'r dathliadau yn hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol
- Mae ffotograffau a gwaith celf sy'n cael eu harddangos yn y lleoliad yn dathlu cyfraniadau pob plentyn
- Mae'r rhieni a'r teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys

*"Rydym wedi gweld y plant yn datblygu ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu gwaith, maent wrth eu bodd yn dangos yr hyn y maent wedi ei wneud i'w rhieni"*